

Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)

Ymateb Mentrau Iaith Cymru

a) A ydych yn cytuno bod angen diweddaru'r fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â safonau'r ddarpariaeth ddwyieithog yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol?

Mae'n holl bwysig bod unrhyw ddiweddariad o'r fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â safonau'r ddarpariaeth ddwyieithog yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi llawn ystyriaeth i hawl pob unigolyn, boed yn Aelod o Gynulliad Cymru neu'n aelod o'r cyhoedd gyfrannu yn yr iaith o'u dewis, Cymraeg neu Saesneg, ar sail cyfartaledd.

b) Beth yw eich barn ar ddull cyffredinol y Bil, sef y dylid cynnwys datganiadau clir ynglŷn â statws y Gymraeg a'r Saesneg yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol ac yn swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad ar wyneb Deddf Llywodraeth Cymru 2006?

Cytuno dylid bod datganiadau clir ynglŷn â statws y Gymraeg.

c) A ydych yn cytuno y dylai'r datganiadau hyn ei gwneud yn glir fod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol ac y dylid eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal?

Cytuno, ond mae angen cydnabod bod y Gymraeg angen cefnogaeth i ffynnu gan mai hi yw'r iaith leiafrifol yng Nghymru.

d) Os na, pa ddull amgen ddyldid ei fabwysiadu?

e) A ydych yn cytuno y dylai manylion y modd y dylid cyflawni'r egwyddor o ddwyieithrwydd yn ymarferol gael eu cynnwys mewn Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog i'w baratoi gan Gomisiwn y Cynulliad?

Cytuno

f) Os na, drwy ba ffyrdd eraill y dylid diffinio'r manylion am sut y caiff dwyieithrwydd ei gyflawni yn y Cynulliad Cenedlaethol?

g) A ydych yn cytuno y dylai Comisiwn y Cynulliad, wrth lunio a gweithredu'r Cynllun, fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol?

Cytuno, ond bod penderfyniadau pwysig yn agored i'r cyhoedd fewnbynnu i'r broses.

h) A ddylai Comisiwn y Cynulliad fod yn atebol i unrhyw un arall, naill ai yn ogystal â bod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol neu ar wahân i'r Cynulliad Cenedlaethol?

Y cyhoedd yn mewnbynnu i benderfyniadau pwysig.

i) A ddylai'r bylchau rhwng cyfnodau adolygu'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog gael eu cysylltu â phob tymor Cynulliad Cenedlaethol (p'un ai yw'r tymor yn un pedair neu bum mlynedd)?

Dylai

Mentrau Iaith Cymru

j) Os na, pa mor aml ddylid ei adolygu?

k) A oes gennych unrhyw sylwadau ar ddarpariaethau manwl y Bil drafft?

Y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog Drafft

Ymateb Mentrau Iaith Cymru

a) A ydych yn cytuno y dylai'r manylion ynghylch sut y bydd yr egwyddor o ddwyieithrwydd yn cael ei wireddu'n ymarferol gael eu gosod allan mewn cynllun gwasanaethau dwyieithog a gaiff ei baratoi gan Gomisiwn y Cynulliad a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol?

Cytuno

b) Os nad ydych yn cytuno â hyn, sut ddylai'r manylion ynghylch y modd y bydd dwyieithrwydd yn cael ei wireddu yn y Cynulliad Cenedlaethol gael eu diffinio?

c) Beth yw eich barn chi ar ddull cyffredinol y cynllun o fynd i'r afael a'r mater hwn?

Mae'n bwysig gosod y dulliau er mwyn gwasanaethu Cynulliad dwyieithog, fel bod y cyhoedd ac aelodau'r Cynulliad yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

d) Pa ddulliau amgen y dylid eu mabwysiadu, os o gwbl?

e) Beth yw eich barn chi am y gwasanaethau dwyieithog y byddwn yn eu darparu i aelodau'r cyhoedd, yn unol â chynigion y cynllun?

Iawn

f) A ydym wedi cynnig ffyrdd priodol a digonol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y sawl sydd am gyfathrebu â ni yn Gymraeg yn cael eu trin mewn modd teg?

Hyfforddi staff i fod yn rhugl yn eu Gymraeg. Swyddfeydd y Cynulliad i weithredu yn y Gymraeg a dangos esiampl i weddill Cymru sut mae modd gweithredu yn y Gymraeg.

g) Yn eich barn chi, a oes unrhyw bwyntiau ychwanegol na chafodd eu cwmpasu gan y cynllun drafft?

h) A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ynghylch y cynllun a sut y caiff ei weithredu?

Nodiadau Cyffredinnol

Credwn ei bod yn holl bwysig fod cofnodion cyfarfodydd, a phapurau eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gael yn y Gymraeg. Nid yw'n dderbynniol bod rhain ddim ond ar gael yn y Saesneg.

Mae angen hwb ychwanegol i'r Gymraeg i gynyddu ei statws ac agwedd bobol tuag at yr iaith, ac mae cyhoeddi cofnodion yn uniaith Saesneg yn tansilio hyn.

Wrth recriwtio staff, credwn byddai yn fwy effeithiol i wneud y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer holl swyddi'r Cynulliad, gan ei bod wedyn yn arbed costau cyfieithu, hyfforddi a chynyddu sgiliau aelodau staff.

Mae'r cynllun i Aelodau ddatblygu sgiliau Cymraeg i'w groesawu. Mae fodd bynnag, angen i'r Aelodau gydnabod fod angen iddyn nhw ddod yn rhugl yn y Gymraeg er mwyn medru cyfathrebu yn effeithiol gyda poblogaeth Cymru. Hoffwn weld adroddiad ar faint mor llwyddiannus yw'r Aelodau am ddysgu'r Gymraeg yn rhugl, a cheisio mynd i'r afael a unrhyw ddiffyg defnydd o'r gwasanaeth cefnogi'r Aelodau i ddysgu Cymraeg.

Credwn fod angen i'r Cynullaid sicrhau bod yr Aelodau yn ateb ymholiadau yn y Gymraeg pan mae gohebiaeth wedi bod yn y Gymraeg. Nid yw pob aelod yn gwneud ar hyn o bryd. Angen i'r Cynulliad sicrhau bod yr aelodau yn cydfynd a pholisi'r Cynulliad Cenedlaethol o ateb gohebiaeth.

Cefnogir y cynnig i bob aelod o staff allu siarad rhywfaint o Gymraeg erbyn mis Gorffennaf 2012. Mae rhaid hefyd osod targedau ar gyfer holl staff y Cynulliad yn medru siarad Cymraeg yn rhugl. Hoffwn weld y targedau yma wedi eu gosod ac eu cyhoeddi.